# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Ionawr 2021

Amser: 14.00 - 15.38

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11092

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Dai Lloyd AS<br>David J Rowlands AS |
| Tystion: | Marley Morris, Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus<br>Jonathan Portes, Kings College London<br>Madeleine Sumption, Yr Arsyllfa Fudo (Prifysgol Rhydychen)<br>Claire Thomas, Swyddog polisi ac ymchwil, Sefydliad Bevan |
| Staff y Pwyllgor: | Alun Davidson (Clerc)<br>Claire Fiddes (Dirprwy Glerc)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Rhun Davies (Ymchwilydd)<br>Lucy Valsamidis (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Sara Moran (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Nid oedd Laura Jones yn bresennol.

1.3 Dywedodd Huw Irranca-Davies fod ganddo fuddiant fel Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Ewrop, Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglen Cymru, a Chadeirydd y Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol.

## 2 Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit: sesiwn dystiolaeth gydag academyddion

2.1 Ymatebodd y panel i gwestiynau gan yr Aelodau.

## 3 Papur i'w nodi

### 3.1 Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd at y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Masnach - 11 Ionawr 2021

3.1 Nodwyd y papur.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit - trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd yr aelodau'r dystiolaeth a gafwyd.

## 6 Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Labelu Cysylltiedig â Maeth, Cyfansoddiad a Safonau – trafod gohebiaeth ddrafft

6.1 Trafododd yr aelodau'r ohebiaeth ddrafft, a chytunwyd arni'n amodol ar rai newidiadau.

## 7 Cytundebau rhyngwladol

7.1 Trafododd yr aelodau adroddiad Dr Maria Garcia ar y Cytundeb Parhad Masnach rhwng y DU a Chanada.